Y Comisiwn Etholiadol

# Ffurflen gwariant etholiad ymgeisydd (ymgyrch fer): Etholiad Cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig

Dylech ddefnyddio’r ffurflen hon i roi adroddiad am dreuliau etholiad ymgeisydd am y cyfnod a elwir yn ‘ymgyrch fer’.

Dylai’r ffurflen gael ei llenwi gan asiant yr ymgeisydd neu’r ymgeisydd os ydych yn gweithredu fel eich asiant eich hun.

Mae’r ymgyrch fer yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl i'r Senedd gael ei diddymu ac mae’n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad. Sylwer, efallai na fydd y diwrnod y bydd y Senedd yn cael ei diddymu yr un diwrnod ag y mae’r Prif Weinidog yn cyhoeddi bod etholiad cyffredinol wedi ei alw. Byddwn yn rhoi'r dyddiad gwirioneddol ar ein gwefan pan fydd yn hysbys.

Os byddwch yn dod yn ymgeisydd bydd angen i chi gyflwyno’r ffurflen hon ynghyd â'r ‘Ffurflen gwariant etholiad ymgeisydd (ymgyrch hir)’, sy’n ymdrin â’r cyfnod o 1 Ionawr 2010 hyd y diwrnod y byddwch yn dod yn ymgeisydd yn ffurfiol.

Gallwch lawr lwytho’r ffurflen ymgyrch hir a’n ‘Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau: Etholiadau cyffredinol Seneddol 2010 ym Mhrydain Fawr' o’n gwefan www.electoralcommission.org.uk.

> **!** Mae’n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw o fewn y cyfyngiad gwariant ar gyfer pob cyfnod ymgyrchu, a dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnodion ar wahân ar gyfer pob cyfnod.

## Llenwi ac anfon y ffurflen at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Bwriadwyd y ffurflen hon i chi ei hargraffu a’i llenwi â llaw. Os oes arnoch angen rhagor o help i lenwi’r ffurflen gallwch gysylltu â ni am gymorth ar y **llinell gymorth PEF 020 7271 0616** neu trwy e-bost pef@electoralcommission.org.uk.

> **!** Sylwer y dylid dychwelyd y ffurflen at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer eich etholaeth cyn pen 35 diwrnod o’r diwrnod y mae canlyniad yr etholiad yn cael ei ddatgan. Dylech gyflwyno’r ffurflen gyda datganiad a lofnodwyd gan yr asiant etholiad i ddilysu’r ffurflen hon.

**Sylwer:** os ydych yn llenwi'r ffurflen hon bydd arnoch angen llenwi'r canlynol hefyd:

- 'Ffurflen gwariant etholiad ymgeisydd (ymgyrch hir): Etholiad Cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig'
- 'Datganiad gan asiant etholiad am dreuliau etholiad'
- 'Datganiad gan ymgeisydd am dreuliau etholiad' – y dylid ei ddychwelyd cyn pen saith diwrnod gwaith o'r dyddiad pan fydd yr asiant yn cyflwyno'r ffurflen hon.

Gallwch gael cyfarwyddyd a ffurflenni datgan ar ein gwefan: www.electoralcommission.org.uk.

Gweler y **Blwch diffiniadau** ar ddiwedd y ddogfen hon am esboniad o'r termau a ddefnyddir trwy gydol y nodyn hwn.

# Nodiadau esboniadol y ffurflen

## Adran 1 – Manylion yr ymgeisydd a'r etholiad

Darparwch y manylion y gofynnir amdanynt o dan yr adran hon os gwelwch yn dda.

Gallwch gael gwybod beth yw nifer yr etholwyr ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r rhybudd o etholiad gan eich Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau. Bydd arnoch angen y rhif hwn i gyfrifo eich cyfyngiad uchafswm treuliau statudol.

## Adran 2 – Manylion yr asiant

Nodwch fanylion yr asiant a sylwer y dylai'r asiant lofnodi'r ffurflen hon.

## Adran 3 – Crynodeb o wariant a thaflenni gwaith

Rydym wedi darparu taflenni gwaith ar wahân ar ddiwedd y ffurflen i chi nodi manylion y treuliau dan bob categori o wariant a thaliadau. Mae 11 taflen waith. Pan fyddwch wedi cael cyfanswm ar gyfer pob categori, nodwch y swm yn y crynodeb o wariant yn adran 3.

Ar ôl i chi nodi eich holl symiau yn nhablau 3a 'Mathau o daliadau' a 3b 'Categorïau gwariant' dylai'r ddau dabl roi'r un cyfanswm i chi. Os na fyddant yn rhoi'r un ffigwr i chi ar gyfer cyfanswm gwariant etholiadol yna rydych wedi gwneud camgymeriad wrth nodi'r wybodaeth a dylech ail wirio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu a'ch cyfrifiadau.

Dylech argraffu cymaint o gopïau o bob taflen waith ag y mae arnoch eu hangen i lenwi eich ffurflen.

Am ragor o wybodaeth am dreuliau etholiad, gweler ein 'Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau: Etholiadau cyffredinol Seneddol 2010 ym Mhrydain Fawr', sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk.

Y categorïau ar gyfer dyrannu gwariant yw:

**A. Hysbysebu** – mae hyn yn cynnwys hysbysebu o unrhyw fath (e.e. posteri neu hysbysebion mewn papurau newydd) ac mae'n cynnwys ffioedd asiantaethau, costau dylunio ac unrhyw gostau yn gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu, dosbarthu neu rannu mewn modd arall ddeunydd hysbysebu neu unrhyw beth sy'n ymgorffori hysbysebu.

**B. Deunydd digymell i etholwyr** – mae hyn yn cynnwys deunydd digymell a gyfeiriwyd at etholwyr (boed gyda chyfeiriad neu i'w dosbarthu i'r holl etholwyr yn yr ardal), gan gynnwys costau dylunio a'r holl gostau eraill sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu a dosbarthu deunydd o'r fath (gan gynnwys costau postio, ond heb gynnwys unrhyw hawl i anfon anerchiad etholiadol yn rhad ac am ddim).

**C. Trafnidiaeth** – mae hyn yn cynnwys costau llogi ond nid yw'n cynnwys defnyddio ceir personol pan na chodwyd unrhyw dâl gan y perchennog.

**D. Cyfarfodydd cyhoeddus** – mae hyn yn cynnwys costau yn gysylltiedig â phresenoldeb pobl mewn cyfarfodydd, llogi'r adeilad ar gyfer y cyfarfodydd neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.

**E. Costau asiant a staff eraill** – yn cynnwys taliadau am wasanaeth asiant etholiadol, neu unrhyw un arall, a delir yng nghyswllt ethol yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio ar ymgyrch yr ymgeisydd sy'n cael eu talu gan blaid yr ymgeisydd.

**F. Llety a gweinyddu** – yn cynnwys costau cyffredinol rhentu swyddfa ymgyrch a'r cyfleustodau.

**Sylwer:** mae taflenni gwaith ar wahân ar gyfer pob categori o wariant.

Dylai pob eitem o wariant gael ei ddyrannu i un categori yn unig. Bydd rhai eitemau yn hawdd i'w dosbarthu, ond gall rhai eraill ymddangos fel pe baent yn addas i fwy nag un diben. Yn yr achosion hyn mae'n rhaid i chi farnu ble y dylid eu rhoi. Yn gyffredinol, dylid rhoi eitemau dan y diben y maent yn disgyn iddo yn naturiol, e.e. dylai costau trafnidiaeth yr ymgeisydd gael eu cynnwys dan drafnidiaeth hyd yn oed os bydd y drafnidiaeth yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn cyfarfod cyhoeddus.

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhowch fanylion:

- rhif yr eitem – dylai'r taliad cyntaf a gofnodir gael rhif eitem '1' ac yna dylid rhifo'r eitemau yn olynol. Dylai rhifau'r eitemau fod yn unigryw

oherwydd maent yn angenrheidiol i groes gyfeirio gydag adrannau eraill o'r ffurflen ac anfonebau/derbynebau i'w cefnogi

- defnyddiwch oes/na i ddynodi a gyflwynwyd anfoneb neu dderbynneb. Mae anfonebau neu dderbynebau yn ofynnol ar gyfer pob eitem dros £20 ac eithrio gwariant tybiannol.
- yr eitem neu'r gwasanaeth a ddefnyddiwyd
- enw a chyfeiriad y cyflenwr pan na fydd hwn ar anfoneb neu dderbynneb a gyflwynwyd gyda'r ffurflen
- y dyddiad y talwyd yr anfoneb
- gwerth yr eitem
- y swm a dalwyd, os yw hyn yn wahanol i werth yr eitem. Dylai hyn gynnwys taliadau 'nil' pan fydd hynny'n berthnasol.
- defnyddiwch 'ydy'/'na' i nodi a yw eitem yn hawliad y mae anghydfod ynglŷn ag o neu'n hawliad heb ei dalu. Bydd arnoch angen darparu gwybodaeth ychwanegol ar eitemau y mae anghydfod amdanynt neu sydd heb eu talu

Cofiwch nodi pan fyddwch yn cofnodi taliad 'nil'.

**Hawliadau Heb eu Talu** – Defnyddiwch y daflen waith hawliadau heb eu talu i ddweud wrthym am hawliadau sy'n parhau heb eu talu ar y diwrnod yr ydych yn cyflwyno'r ffurflen.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un rhif eitem i groes gyfeirio'r ddau gofnod yn y taflenni gwaith gwahanol. Dylech gynnwys manylion y llys yr ydych wedi gwneud cais iddo, neu y byddwch yn gwneud cais iddo, i wneud taliad hwyr.

**Hawliadau mewn anghydfod** – Defnyddiwch y daflen waith hawliadau mewn anghydfod i ddweud mwy wrthym am unrhyw hawliadau y mae anghydfod ynglŷn â nhw.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un rhif eitem i groes gyfeirio'r ddau gofnod yn y taflenni gwaith gwahanol

## Adran 4 – Datganiad o'r holl dreuliau personol a dynnwyd a thaflen waith

Rhowch fanylion treuliau teithio a byw rhesymol yr ymgeisydd ar gyfer dibenion yr etholiad ac mewn cysylltiad ag ef. Mae'r manylion hyn yn cynnwys:

- yr eitem/gwasanaeth
- y swm
- y dyddiad y tynnwyd y costau
- y dyddiad y derbyniwyd y dderbynneb
- y dyddiad y talwyd y costau

Nid yw treuliau personol yn cyfrif yn erbyn cyfyngiad yr ymgeisydd felly ni ddylai unrhyw eitemau a gofnodir yn yr adran hon gael eu cynnwys dan Adran 3 uchod.

## Adran 5 – Rhoddion a'r taflenni gwaith ar gyfer cofnodi rhoddion

Cofnodwch gyfanswm yr arian a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i dalu ei dreuliau etholiad.

Dylech gofnodi cyfanswm gwerth yr holl roddion a dderbyniwyd oedd yn £50 neu lai mewn gwerth ariannol yn y blwch a ddarperir. Nid oes raid i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i ni am y rhoddion hyn.
**Rhoddion a ganiateir** – defnyddiwch y daflen waith hon i ddweud wrthym am unrhyw roddion o ffynonellau a ganiateir sy'n fwy na £50.

Ar gyfer pob rhodd a dderbynnir gan neu ar ran yr ymgeisydd rhowch y manylion canlynol:

- enw llawn y rhoddwr – os yw'n gwmni cofrestredig cynhwyswch rif cofrestru'r cwmni
- cyfeiriad, neu gyfeiriad cofrestredig y rhoddwr fel sy'n briodol
- statws y rhoddwr
- y dyddiad y cyrhaeddodd y rhodd
- y dyddiad y gwnaethoch dderbyn y rhodd
- swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu werth (ar gyfer rhodd nad yw'n ariannol)
- natur y rhodd (e.e. arian parod; anariannol, gwasanaethau neu ofod swyddfa gostyngol

Os daeth y rhodd gan ymddiriedolaeth rhowch daflen ar wahân ynghlwm.

Os crëwyd yr ymddiriedolaeth cyn 27 Gorffennaf 1999, ac ar yr amod nad oes unrhyw eiddo wedi cael ei drosglwyddo iddi ers y dyddiad hwnnw ac nad yw'r amodau wedi amrywio, darparwch, os gwelwch yn dda:

- y dyddiad y crëwyd yr ymddiriedolaeth
- enw llawn yr unigolyn a greodd yr ymddiriedolaeth
- enw llawn pob unigolyn a drosglwyddodd eiddo i'r ymddiriedolaeth cyn 27 Gorffennaf 1999

Os oes trosglwyddiadau eraill wedi eu gwneud i'r ymddiriedolaeth gan roddwr a ganiateir, yna dylid darparu'r manylion ar gyfer ymddiriedolaeth cyn 1999 (fel uchod) a dylai manylion pobl eraill sydd wedi trosglwyddo eiddo i'r ymddiriedolaeth (gan gynnwys trwy gymynrodd) gael eu darparu hefyd.

Os mai cwmni oedd crëwr yr ymddiriedolaeth neu fod cwmni wedi rhoi i'r ymddiriedolaeth dylech hefyd ddarparu rhif cofrestru'r cwmni.

**Rhoddion nas caniateir** – defnyddiwch y daflen waith rhoddion nas caniateir i ddweud wrthym am unrhyw roddion yr ydych wedi penderfynu peidio eu derbyn.

Ar gyfer pob rhodd na ellir ei adnabod neu rodd nas caniateir a dderbyniwyd gan neu ar ran yr ymgeisydd, rhowch y manylion canlynol:

- enw'r rhoddwr oni bai nad yw'n hysbys ac felly dylid cofnodi 'anhysbys'
- cyfeiriad y rhoddwr, ond os nad ydych yn gwybod hwn, yna rhowch 'anhysbys'
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd
- swm neu werth y rhodd
- natur y rhodd (e.e. arian parod, anariannol, gwasanaethau neu ofod swyddfa gostyngol)
- y dyddiad pan ddychwelwyd y rhodd a'r modd y gwnaed hynny

**Ffurflen gwariant etholiad ymgeisydd (ymgyrch fer): Etholiad Cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig**

## Adran 1 Manylion yr ymgeisydd a'r etholiad

Etholaeth

Etholwyr

Cyfyngiad uchafswm gwariant statudol £

Dyddiad yr etholiad

Dyddiad datgan canlyniad yr etholiad

Enw'r ymgeisydd

Plaid gofrestredig

Y dyddiad y daethoch yn ymgeisydd

## Adran 2 Manylion yr asiant

Enw'r asiant etholiad

Dyddiad penodi'r asiant etholiad

Fi yw'r asiant sy'n gyfrifol am gyflwyno'r ffurflen hon o dreuliau'r ymgeisydd dan Ran II o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ☐

Fi yw'r ymgeisydd ac yr oeddwn yn asiant etholiad i mi fy hun. Fi sy'n gyfrifol am gyflwyno'r ffurflen hon o dreuliau'r ymgeisydd dan Ran II o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ☐

| Llofnod yr asiant | ______________________________ | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

**Cyflwynwch y ffurflen hon i'r swyddog canlyniadau priodol cyn pen 35 diwrnod o'r diwrnod y cyhoeddir canlyniad yr etholiad**. Rhaid anfon datganiad wedi ei lofnodi gan yr asiant etholiad yn dilysu'r ffurflen gyda hi.
Cyn pen 7 diwrnod gwaith o gyflwyno'r ffurflen hon, rhaid i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno datganiad wedi ei lofnodi yn dilysu'r ffurflen hon.

## Adran 3 Crynodeb o wariant

### Adran 3a Mathau o daliadau

| Dull talu | £.cc |
|---|---|
| Hawliadau heb eu talu | |
| Hawliadau mewn anghydfod | |
| Gwerth gwariant tybiannol | |
| Taliadau a wnaed | |
| **Cyfanswm gwariant etholiad** | **£** |

Dylai cyfanswm gwariant 3a fod yn hafal i gyfanswm gwariant 3b. Os nad ydynt yn hafal yna gwiriwch eich bod wedi llenwi'r taflenni gwaith ar hawliadau heb eu talu ac mewn anghydfod

### Adran 3b Categorïau o wariant

| Diben | £.cc |
|---|---|
| A. Hysbysebu | |
| B. Deunydd digymell i etholwyr | |
| C. Trafnidiaeth | |
| D. Cyfarfodydd cyhoeddus | |
| E. Costau asiant a staff eraill | |
| F. Llety a gweinyddu | |
| **Cyfanswm gwariant etholiadol** | **£** |

## Adran 4 Datganiad o'r holl dreuliau personol a dynnwyd

**Rhowch fanylion gwariant personol ar y daflen waith a labelwyd treuliau personol**

Treuliau personol yw treuliau teithio a byw rhesymol yr ymgeisydd ar gyfer diben ymgyrchu yn yr etholiad.
Nid yw treuliau personol yn cyfrif yn erbyn cyfyngiad yr ymgeisydd ac ni ddylent ddyblygu unrhywbeth sydd eisoes wedi ei ddatgan fel gwariant etholiad dan adran 3.

**Cyfanswm y treuliau personol** **£**

## Adran 5 Rhoddion

Dywedwch wrthym am unrhyw swm o arian a roddwyd gan yr ymgeisydd i dalu gwariant etholiad - os na ddarparwyd unrhyw arian rhowch 0 (dim)

Cyfanswm gwerth **£**

Nodwch gyfanswm gwerth yr holl roddion hyd at y gwerth ariannol o £50.00. Nid oes angen unrhyw fanylion pellach am y rhoddion hyn

Cyfanswm gwerth **£**

Cyfanswm gwerth rhoddion o werth mwy na £50.00 — Cyfanswm gwerth **£**

Cyfanswm y rhoddion a dderbyniwyd **£**
Dylai'r swm hwn fod yn fwy na'r cyfanswm gwariant neu'n hafal iddo - gweler 3a a 3b

Cyfanswm y rhoddion nas caniateir a wrthodwyd **£**

## A Hysbysebu

| Rhif yr Eitem | Derbynneb /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

| B Deunydd digymell i etholwyr | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif yr Eitem | Derbynneb /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/ derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

## C Trafnidiaeth

| Rhif yr Eitem | Derbynneb /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/ derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

| D Cyfarfodydd Cyhoeddus | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif yr Eitem | Derbynneb /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/ derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

| E Asiant a chostau staff eraill | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif yr Eitem | Derbynneb /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/ derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

| F Llety a gweinyddu | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif yr Eitem | Derbynneb/ /Anfoneb | Eitem/ Gwasanaeth | Enw a chyfeiriad y cyflenwr (oni bai ei fod ar yr anfoneb/derbynneb) | Dyddiad talu | Gwerth £ | Swm a dalwyd £ | Gwerth tybiannol £ | Anghydfod /Heb ei dalu |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | Is gyfansymiau | | | | | |

| Heb eu talu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Categori | Rhif yr Eitem | Eitem/ Gwasanaeth | Swm £ | Enw'r llys | Dyddiad y cais |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | CYFANSWM | | | |

| Hawliadau mewn anghydfod | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Categori | Rhif yr Eitem | Eitem/ Gwasanaeth | Swm £ | Natur yr anghydfod | Gweithred |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | CYFANSWM | | | |

| Treuliau Personol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Eitem | Swm a dalwyd £ | Dyddiad tynnu'r gwariant | Dyddiad derbyn yr anfoneb | Dyddiad talu |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| CYFANSWM | | | | |

## Rhoddion

| Enw'r rhoddwr | Cyfeiriad | Statws | Cyrraedd | Derbyn | Gwerth £ | Natur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | CYFANSWM | | | |

| Rhoddion nas caniateir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r rhoddwr | Cyfeiriad | Cyrraedd | Gwerth £ | Natur | Dyddiad a modd ymdrin â'r rhodd |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | CYFANSWM | | | | |

## Blwch diffiniadau

Sut mae'r gyfraith yn diffinio'r termau cyfreithiol a ddefnyddir yn y nodyn hwn:

**Asiant etholiad**
Yr asiant etholiad yw'r unigolyn dan y gyfraith sy'n gyfrifol am reoli ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd yn briodol. Mae'r asiant etholiadol yn gyfrifol am agweddau ariannol yr etholiad.

**Cyfyngiadau uchafswm gwario statudol**
Cyfyngiadau gwario ar y cyfanswm y gall ymgeisydd ei wario ar ymgyrchu yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol. Mae dau gyfnod ar wahân pan fydd y cyfyngiadau yn berthnasol: rydym yn eu galw yn ymgyrch hir ac ymgyrch fer.

Cyfeiriwch at 'Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau: Etholiadau cyffredinol Seneddol 2010 ym Mhrydain Fawr', sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk, ar gyfer y dull o gyfrifo'r cyfyngiadau gwario ar gyfer y cyfnodau hyn.

**Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)**
Dyma'r unigolyn sy'n gyfrifol am weinyddu'r etholiad yn eich etholaeth.

**Treuliau etholiad**
Treuliau sy'n cael eu tynnu ar neu ar ran ymgeisydd mewn etholiad penodol.

**Ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol seneddol yn y Deyrnas Unedig**
Pan fydd unigolyn wedi cael ei ddatgan (boed ganddo ei hun neu gan rywun arall) i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad perthnasol, maent yn dod yn ymgeisydd ar ddyddiad diddymu'r Senedd.

Pan nad oedd yr unigolyn wedi cael ei ddatgan yn ymgeisydd, mae'n dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y mae'n cael ei ddatgan yn ymgeisydd, neu'r dyddiad y cafodd ei enwebu (p'run bynnag sydd gynharaf).

**Ymgyrch fer**
Y cyfnod yn cychwyn ar y diwrnod y byddwch yn dod yn ymgeisydd yn ffurfiol sy'n dod i ben ar ddyddiad yr etholiad.

**Ymgyrch hir**
Y cyfnod yn cychwyn ar 1 Ionawr 2010 sy'n dod i ben ar y dyddiad y mae'r Senedd yn cael ei diddymu.

## Ble gallaf fi gael rhagor o gyngor?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am dreuliau etholiad ymgeiswyr yna cysylltwch â ni am ragor o gyngor.

**Gallwch gael rhagor o gyngor o:**

Party and Election Finance
The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Y We: www.electoralcommission.org.uk

Neu

The Electoral Commission
Scotland Office
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN

Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
E-bost: infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
E-bost: infowales@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN

Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
E-bost: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk